Atodiad A: Ymateb Llywodraeth Cymru i'r Argymhellion gan y Pwyllgor Cyllid mewn perthynas â'r Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru).

Ar 28 Chwefror 2018, cyhoeddodd y Pwyllgor Cyllid ei adroddiad ar oblygiadau ariannol y Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru). Mae'r atodiad hwn yn rhoi ymateb Llywodraeth Cymru i bob un o'r argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwnnw.

Cafodd Egwyddorion Cyffredinol y Bil eu cytuno gan y Cynulliad Cenedlaethol ar 13 Mawrth.

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn disgwyl i'r Memorandwm Esboniadol diwygiedig a gyhoeddir ar ôl i'r Bil gael ei ddiwygio yn ystod Cyfnod 2 adlewyrchu'r newidiadau i gostau a buddion disgwyliedig cyflwyno'r Bil o ganlyniad i'r gwaith modelu wedi'i ddiweddaru. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid gwneud hyn cyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno gwelliannau yn ystod Cyfnod 3.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Gallaf gadarnhau y bydd y Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) ar gyfer y Bil yn cael eu diwygio i adlewyrchu'r dadansoddiad diweddaraf a gynhaliwyd gan Grŵp Ymchwil Alcohol Sheffield yn ei arfarniad ar sail model o'r effaith gymharol o osod isafbris uned mewn a pholisïau trethi yng Nghymru. Mae'r Memorandwm Esboniadol a'r RIA diwygiedig wedi'u gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â'i Orchmynion Sefydlog.

Goblygiadau Ariannol

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i dderbyn yr argymhelliad hwn.

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y bydd y penderfyniad ynghylch y lefel i osod isafbris uned yn cael effaith ar safonau masnach, ac mae'n argymell y dylai Llywodraeth Cymru barhau â'i thrafodaethau â chynrychiolwyr safonau masnach i sicrhau bod yr adnoddau a ddyrennir ar gyfer gorfodi'r Bil ar gael i awdurdodau lleol yn y ffordd fwyaf effeithiol.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Rwy'n fodlon derbyn yr argymhelliad hwn. Rydym yn parhau i weithio'n agos iawn gyda Phenaethiaid Safonau Masnach Cymru mewn perthynas â gweithgarwch arolygu a gorfodi sy'n gysylltiedig â'r Bil.

Yn dilyn sylwadau gan Benaethiaid Safonau Masnach Cymru ac yn sgil ystyried eu cynigion, rwyf wedi cytuno'n ddiweddar neilltuo £300,000 ar gyfer gweithgarwch arolygu a gorfodi yn y tair blynedd gyntaf o weithredu'r ddeddfwriaeth. Mae Penaethiaid Safonau Masnach Cymru wedi cynnig y dylid dadansoddi'r cyllid hwn fel a ganlyn: £200,800 ym Mlwyddyn 1; £49,600 ym Mlwyddyn 2; a £49,600 ym Mlwyddyn 3. Rwyf wedi cytuno ar y dull hwn a'r dyraniadau cyllid cysylltiedig gan y bydd hyn yn sicrhau bod gennym y gyfundrefn arolygu fwyaf effeithiol ar waith ac y gallwn ganolbwyntio ar orfodi ar yr amser iawn wrth weithredu'r ddeddfwriaeth.

Goblygiadau Ariannol

Bydd y goblygiadau ariannol sydd ynghlwm wrth dderbyn yr argymhelliad hwn yn cael eu rheoli o fewn y gyllideb bresennol a neilltuwyd i'r ddeddfwriaeth hon dros y cyfnod cynllunio'r gyllideb presennol fel a nodwyd uchod. Bydd unrhyw gostau eraill y tu allan i'r cyfnod cynllunio'r gyllideb presennol yn cael eu cynnwys yng nghynlluniau'r gyllideb yn y dyfodol.

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn negodi gyda Thrysorlys EM ynghylch effaith lleihad posibl mewn refeniw o werthu alcohol. Byddai'n disgwyl i benderfyniad ar yr effaith ar y Fframwaith Cyllidol fod yn barod cyn pleidlais derfynol y Cynulliad ar y Bil yng Ngham 4.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Mae swyddogion o Drysorlys Cymru eisoes wedi trafod y Bil â swyddogion o Drysorlys ei Mawrhydi, o fewn cyd-destun y trefniadau cyllidol a osodir yn y Polisi Datganiad Cyllid a'r Fframwaith Cyllidol. Nid ydym yn disgwyl y bydd cyflwyno isafbris uned yn cael unrhyw effaith ar y fframwaith cyllidol a negodwyd â Llywodraeth y Deyrnas Unedig (DU) yn 2016, sy'n ymwneud ar hyn o bryd â gweithredu'r pwerau cyllidol a gafodd eu datganoli i Gymru yn Neddf Cymru 2014.

Yn ôl y dadansoddiad diweddaraf gan Grŵp Ymchwil Alcohol Prifysgol Sheffield o effaith isafbris uned yng Nghymru, amcangyfrifir y bydd pob polisi ar isafbris uned yn arwain at ostyngiad yng nghyfanswm y dreth a geir o dollau alcohol, a bod y gostyngiadau hyn yn mynd i gynyddu'n gyflymach pan fydd lefelau'r isafbris uned yn fwy na 55 ceiniog. O ganlyniad, amcangyfrifir y bydd y refeniw blynyddol i'r trysorlys o dollau alcohol a TAW yng Nghymru yn syrthio o 0.4% neu £1.9miliwn, os rhagnodir isafbris uned o 50 ceiniog. Os bydd isafbris uned yn 55 ceiniog, amcangyfrifir y bydd y refeniw blynyddol i'r trysorlys yn syrthio o £2.1 miliwn, a phe byddai'r isfabris uned yn 60 ceiniog byddai'r refeniw hwnnw'n syrthio o £3 miliwn.

Fodd bynnag, mae'r RIA ar gyfer y Bil hefyd yn amcangyfrif y byddai cyflwyno isafbris uned yn effeithiol i leihau'r defnydd o alcohol, niwed yn gysylltiedig ag alcohol (gan gynnwys marwolaethau yn gysylltiedig ag alcohol, derbyniadau i'r ysbyty, troseddau ac absenoldeb o'r gweithle) a'r costau sy'n gysylltiedig â'r niweidiau hynny. Byddai lleihau cost trosedd yn arwain at fanteision ariannol i Lywodraeth y DU.

Mae'r RIA yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu'r dadansoddiad newydd hwn gan Brifysgol Sheffield.

Goblygiadau Ariannol

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i dderbyn yr argymhelliad hwn oherwydd nid ydym yn disgwyl i gyflwyno isafbris uned gael unrhyw effaith ar y fframwaith cyllidol a negodwyd â Llywodraeth y DU yn 2016.

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gellid rhoi ardoll wirfoddol ar fanwerthwyr mawr lle mae cyfran o'r incwm ychwanegol y maent yn ei gael o ganlyniad i gyflwyno isafbris uned yn cael ei gyfeirio i gronfa i'w defnyddio at ddibenion iechyd y cyhoedd. Dylid cyhoeddi'r swm o arian a delir gan bob manwerthwr.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Rwy'n cytuno y byddaf yn ystyried y mater hwn, ond dim ond ar ôl i'r ddeddfwriaeth gael ei rhoi ar waith y gellir rhoi ystyriaeth ddyledus iddo. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn newydd ac yn arloesol. O ganlyniad, cydnabyddir bod ansicrwydd, gan gynnwys mewn perthynas ag unrhyw gynnydd posibl mewn refeniw i fasnachwyr a lle yn y gadwyn gyflenwi y gallai hwn syrthio.

Byddwn yn parhau i gadw mewn cysylltiad â'r diwydiant ynglŷn â'r potensial ar gyfer gweithredu gwirfoddol.

Goblygiadau Ariannol

Bydd goblygiadau ariannol derbyn egwyddor yr argymhelliad hwn yn cael eu rheoli o fewn y gyllideb bresennol a neilltuwyd ar gyfer y ddeddfwriaeth hon dros y cyfnod cynllunio'r gyllideb hwn. Bydd unrhyw gostau eraill y tu allan i'r cyfnod cynllunio'r gyllideb presennol yn cael eu cynnwys yng nghynlluniau'r gyllideb yn y dyfodol.

Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod rheoliadau sy'n ymwneud â gosod lefel yr isafbris uned yn destun gweithdrefn uwchgadarnhaol ynghyd ag asesiad ariannol trylwyr.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Gan gadw'r effaith ar randdeiliaid a'r cyhoedd yn ehangach mewn cof, rydym yn ystyried y byddai'n briodol peidio â rhagnodi'r isfabris uned na'i ddiwygio heb rhoi ystyriaeth lawn i wneud hynny a heb y cyfle i gynnal dadl ynglŷn â hyn yn y Cynuliad Cenedlaethol. Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon bod y weithdrefn gadarnhaol yn cynnig y cyfle hwnnw a'i fod yn gadarnhaol.

Pe byddai'r ddeddfwriaeth yn cael ei phasio gan y Cynulliad Cenedlaethol, bydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar yr isafbris uned y mae Llywodraeth Cymru yn cynnig ei ragnodi.

Bydd RIA yn cael ei gyhoeddi ynghyd â'r rheoliadau a fydd yn rhagnodi'r isafbris uned at ddibenion y Bil. Bydd yr RIA yn cynnwys asesiad ariannol cadarn o effeithiau lefel yr isafbris uned arfaethedig, yn seiliedig ar ddadansoddiad diweddar a gynhaliwyd gan Grŵp Ymchwil Alcohol Prifysgol Sheffield ac unrhyw ffactorau perthnasol eraill.

At hynny, mae yna fesurau diogelu eraill ar waith sydd wedi cael eu cynnwys yn y gyfundrefn isafbris am alcohol arfaethedig yma yng Nghymru.

Mae cyflwyno isafbris am alcohol eisoes wedi bod yn destun dau ymgynghoriad yma yng Nghymru. Yn gyntaf, fel rhan o'r Papur Gwyn Iechyd y Cyhoedd a gyhoeddwyd yn 2014 ac wedi hynny ac yn fwy penodol roedd cyfnod estynedig o ymgynghori ar y Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) drafft yn 2015.

Yn fwy na hynny, mae'r Bil yn ymrwymo Gweinidogion Cymru i gyhoeddi adroddiad ar weithredu'r gyfundrefn isafbris am alcohol a'i heffaith ar ôl iddi fod ar waith am bum mlynedd ac mae'n darparu ar gyfer diddymu'r ddeddfwriaeth ar ôl cyfnod o chwe blynedd oni fydd Gweinidogion Cymru, gyda chymeradwyaeth y Cynulliad, yn penderfynu mynd ati i barhau â hi.